

CYSWLLT Y WEITHREDWR



Annwyl gydweithiwr,

05/09/2022

Rwy'n falch iawn bod cannoedd o gydweithwyr GIG Cymru wedi ymgynnull yng Nghaerdydd dros benwythnos gŵyl y banc ym mis Awst i gymryd rhan yng Ngorymdaith Pride Cymru 2022. Mae Pride Cymru yn ddathliad gwych o'n cymuned LHDTG+ ac fel Bwrdd Iechyd rydym yn falch o hyrwyddo a meithrin cynhwysiant.

Cafodd y gwely anhygoel a ddefnyddiwyd yng ngorymdaith Pride Cymru eleni ei addurno gan yr artist Caroline Richards ac mae'r gwahanol rubanau a oedd ar y gwely yn cynrychioli'r gwahanol gymunedau a diwylliannau LHDTG+. Roedd yn hyfryd gweld yr holl luniau, fideos a negeseuon ar draws sianeli newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol i ddathlu'r diwrnod ac fe wnaeth i mi deimlo mor falch o fod yn rhan o'r GIG. Fe wnes i wir fwynhau'r awyrgylch yng nghanol Caerdydd.

Roedd hefyd yn wych darllen rhai straeon gan ein staff ynghylch pam eu bod yn gorymdeithio yn Pride a gallwch ddarllen mwy yma.

Ar 1 Medi dechreuodd ein Timau Brechu Torfol gyflwyno rhaglen Dos Atgyfnerthu'r Hydref mewn cartrefi gofal i oedolion drwy ein timau brechu cymunedol a bydd oedolion 80 oed ac yn hŷn hefyd yn dechrau derbyn gwahoddiadau i fynd i'w Practis Meddyg Teulu, Fferyllfa Gymunedol neu un o'n Canolfannau

Brechu Torfol. Heddiw, mae ein Canolfan Brechu Torfol newydd yn Nhŷ Coetir yn agor yn dilyn cau Canolfannau Brechu Torfol y Sblot a'r Bae. Adeiladwyd y ganolfan newydd mewn 4 wythnos yn unig a bydd yn gallu darparu 12,600 dos yr wythnos yn dibynnu ar y cyflenwad a bydd yn ategu gwaith y Ganolfan Brechu Torfol bresennol yn Holm View yn y Barri. Os cewch eich gwahodd i gael eich brechlyn, mynychwch os gwelwch yn dda gan mai'r brechlyn yw'r ffordd orau o'n galluogi i amddiffyn y boblogaeth leol rhag COVID-19 wrth i ni nesáu at fisoedd y Gaeaf.

Bydd cyflwyno'r brechiad rhag y fflw hefyd yn dechrau'n hwyrach ym mis Medi ac unwaith eto, os ydych yn gymwys, cewch eich gwahodd i'w dderbyn felly manteisiwch ar y cynnig gan ein bod yn rhagweld tymor gwael o'r fflw a dyma'r ffordd orau o atal salwch difrifol. Mae mwy o fanylion am raglen frechu COVID-19 ar gael [yma](#).



Lleoliadau iechyd meddwl i ddod yn safleoedd di-fwg ledled Cymru

O 1 Medi 2022, mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad iechyd meddwl fod yn gwbl ddi-fwg. Mae hyn yn cynnwys yr holl unedau preswyl, wardiau, adeiladau, tiroedd a cherbydau ar ein safle.

Ers mis Mawrth 2021 mae wedi bod yn anghyfreithlon i smygu ar dir ysbytai, fodd bynnag, o dan y rheoliad hwn caniatwyd i leoliadau iechyd meddwl nodi ardaloedd smygu dynodedig mewn gerddi caeedig. Er budd iechyd cleifion, mae'r eithriadau hyn wedi'u tynnu o'r rheoliad ac yn dod i rym ar 1 Medi 2022. Mae lleoliadau iechyd meddwl yn Lloegr wedi bod yn ddi-fwg ers 2018.

Yn seiliedig ar arfer gorau a'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch gweithredu, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn mabwysiadu dull graddol i gefnogi'r trosglwyddiad gyda'r nod o roi'r newid ar waith yn llawn erbyn y gaeaf. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi cleifion mewnol presennol yn y ffordd orau a pharhau i deilwra ein dull gweithredu yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwn ac adborth.



Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn cydnabod pa mor bwysig y gall smygu fod i gleifion. Fodd bynnag, mae manteision iechyd sylweddol i roi'r gorau i smygu. Bydd ein staff wrth law i roi cyngor a chymorth wrth i ni roi'r gofynion

newydd ar waith – yn ogystal ag yn barhaus wedi hynny. Bydd cefnogaeth i smygwyr yn rhan gynyddol bwysig o gynlluniau gofal unigol cleifion.

[Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am ein cynlluniau, gan gynnwys cwestiynau cyffredin a gwybodaeth Hawdd ei Ddeall ar ein gwefan.](#)

Ffair Swyddi Gofal Iechyd

Bydd y Bwrdd Iechyd yn mynychu'r Ffair Swyddi Gofal Iechyd ddydd Sadwrn 10 Medi 2022 yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol, Casnewydd.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn swydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddod i gwrdd â ni yn nigwyddiad recriwtio mwyaf y DU ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth meddygol, nyrsio ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd modd i fynychwyr gael rhagor o wybodaeth am yr ystod eang o gyfleoedd gyrfa cyffrous sydd gennym ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

Darganfyddwch fwy a chofrestrwch [yma](#).

Dod yn Gynrychiolydd RPB ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Caerdydd a'r Fro yn chwilio am ofalwr di-dâl i ymuno â'r Bwrdd i ddylanwadu a chynllunio cefnogaeth a gwasanaethau hirdymor ar draws y rhanbarth.

Byddai'r RPB wrth ei fodd yn clywed gennych os ydych yn teimlo y gallwch ddefnyddio'ch gwybodaeth a'ch cysylltiadau â gofalmwr eraill er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu barn a phrofiadau gofalmwr di-dâl.

Rydym yn gwybod pa mor anodd y gall fod i ddod o hyd i gymorth pan fo pobl ei angen fwyaf a bod yr heriau y mae gofalmwr di-dâl yn eu hwynebu wedi dod yn anoddach fyth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dyma gyfle cyffrous i edrych tuag at y dyfodol trwy ddod yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Chyd-gadeirydd y Bwrdd Gofalmwr Di-dâl, sy'n goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau rydyn ni'n eu hariannu i gefnogi gofalmwr di-dâl.

I roi blas i chi ar ein gwaith, byddwn yn:

- Cyhoeddi Siarter Gofalmwr Di-dâl i helpu pobl i ddeall os ydynt yn ofalmwr a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Porth Gofalmwr, sy'n cefnogi gofalmwr di-dâl a'u helpu i gael cyngor ariannol, grantiau a gwasanaethau eraill. [Cliciwch yma i wyllo ffilm am eu gwaith](#);
- Datblygu ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf - gan siapia gwasanaethau o amgylch yr hyn sydd bwysicaf i bobl a dod â nhw mor agos at y cartref â phosib.

[Cliciwch yma i ddarllen mwy am y rôl a chwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb](#). Bydd angen ei ddychwelyd at lanig@gvs.cymru erbyn 23 Medi 2022. Cynhelir y cyfweiliadau ar 19 a 20 Hydref 2022.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Lani Tucker drwy e-bostio lanig@gvs.cymru neu ffonio 01446 741706.



AWMSG yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2021–2022

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-2022 sy'n amlygu'r gwaith allweddol maen nhw wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad a luniwyd gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), yn tynnu sylw at yr allbynnau o naw cyfarfod rhithwir AWMSG a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- 21 o feddyginiaethau wedi'u harfarnu (8 wedi'u cyflwyno llawn, 4 wedi'u cyflwyno'n rhannol a 9 estyniad trwydded pediatrig)
- 17 o Ddatganiadau Cyngor wedi'u cyhoeddi
- 14 o adnoddau optimeiddio meddyginiaethau wedi'u cyhoeddi

- 15 o ddangosyddion presgripsiynu cenedlaethol wedi'u monitro drwy gydol y flwyddyn
- 9 o Gynlluniau Mynediad i Gleifion Cymru wedi'u prosesu.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwaith pwysig mae AWMMSG yn ei wneud gyda'r tri phrif grŵp partner – cleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r diwydiant fferyllol – wrth iddynt barhau i ymateb i heriau'r pandemig tra'n cefnogi presgripsiynu meddyginiaethau diogel a darbodus.

[Darllenwch yr Adroddiad Blynyddol AWMMSG 2021–2022 llawn](#)

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn lansio cystadleuaeth 'Enwebiad am Bortread'

Ar 5 Gorffennaf 2023 mae'r GIG yn dathlu 75 mlynedd o wasanaeth. Ein staff gweithgar sy'n gwneud y GIG, felly i ddathlu'r garreg filltir hon bydd yr artist enwog Harry Holland yn gweithio mewn partneriaeth ag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i beintio portread o un aelod o staff.

Gwahoddir staff i enwebu cydweithiwr y dylid ei ddathlu gyda phortread. Mae pawb sy'n gweithio yn BIP Caerdydd a'r Fro yn gymwys.

[Gall staff gwblhau'r ffurflen i enwebu cydweithiwr](#)

Her Tri Chopa Cymru

Mae amser o hyd i gofrestru ar gyfer Her Tri Chopa Cymru! Cewch ragor o wybodaeth drwy [ymweld â'n gwefan](#), neu cysylltwch â ni gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych: fundraising.cav@wales.nhs.uk



Celf ar gyfer SARC

Yn ddiweddar, cymeradwyodd Panel Cynigion Loteri'r Staff gais i lonni'r gwagle yn Ynys Saff yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd gyda'r nod o greu amgylchedd diogel, llawn cysur i'r rhai sy'n dod i ddefnyddio'r Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol.